Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Conwy

**Canolfan Addysg Penrhos Avenue**
**Ffordd Graig**
**Penmaenrhos**
**LL29 9HM**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Addysg Conwy

Mae Canolfan Addysg Conwy yn uned cyfeirio disgyblion (UCD) awdurdod lleol ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 16 oed sy’n cael anawsterau yn ymwneud ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn bennaf.

Mae’r UCD yn cynnwys tri safle. Mae Y Ddraig Goch yn ddarpariaeth cyfnod allweddol 2 wedi’i lleoli yn Llandudno gyda 12 disgybl. Mae Canolfan Addysg Penmaenrhos yn ddarpariaeth cyfnod allweddol 3 gyda 29 disgybl, ac mae Penrhos yn ddarpariaeth cyfnod allweddol 4 sy’n cynnig darpariaeth amgen ar gyfer 43 disgybl. Mae darpariaethau cyfnod allweddol 3 a 4 wedi eu lleoli’n agos at ei gilydd ym Mae Colwyn.

Mae gan y rhan fwyaf o’r 84 disgybl presennol gofrestriad deuol yn yr UCD ac mewn ysgol leol. Mae tua hanner y disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig (AAA), ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar y gofrestr AAA ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion statws plentyn sy’n derbyn gofal. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi eu nodi’n ofalwyr. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn mynychu’r UCD o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Nid yw’n briodol cymharu’r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol neu ddadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau o ddisgyblion dros gyfnod oherwydd natur anghenion addysgol arbennig disgyblion.

Mae’r UCD yn gyfuniad o wasanaethau a oedd yn bodoli ar draws yr awdurdod lleol yn y gorffennol. Mae’r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth a thri phennaeth cynorthwyol, y mae pob un ohonynt yn gweithio ar un o’r tri safle. Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Mehefin 2020.

Hwn yw’r arolygiad craidd cyntaf ar gyfer yr UCD wedi’i huno.

## Trosolwg

Mae gan ddisgyblion yng Nghanolfan Addysg Conwy ystod eang o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae llawer o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd ac wedi profi methiannau o ran lleoliadau addysg blaenorol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yr UCD gyda hanes o bresenoldeb gwael, ac yn aml maent wedi colli cryn dipyn o addysg cyn dechrau yn yr UCD. O ganlyniad, nid oes ganddynt ryw lawer o hyder yn eu gallu eu hunain fel dysgwyr ac fe gânt anawsterau sylweddol yn rheoli eu hymddygiad eu hunain.

Pan fu'r arolygwyr ar y safle, roedd mwyafrif y disgyblion yn mynychu'r UCD. Mae ein gwerthusiadau'n ymwneud â'r disgyblion hynny a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad.

Mae'r UCD yn darparu ethos gofalgar a chynhwysol hynod effeithiol. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf ac yn darparu amgylcheddau dysgu diogel ac ymddiriedus. Mae staff yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill i ddarparu cymorth cryf ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig.

Mae staff a disgyblion yn yr UCD wedi profi newidiadau sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys dod â thair UCD at ei gilydd i greu un, gwahanol arweinwyr ac effeithiau'r pandemig. Er gwaethaf yr holl newidiadau hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu cyfnod yn yr UCD o'u mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu'n ddigon rheolaidd i wneud cynnydd neu gael cymorth amserol gan yr awdurdod lleol i wella'u presenoldeb.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygiad academaidd, galwedigaethol, a phersonol. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn darparu gwersi sy'n cefnogi anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion yn dda. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu i gynllunio, cefnogi a datblygu targedau addysg unigol priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth buddiol gan athrawon, a gallant hunanasesu eu cynnydd eu hunain trwy ddefnyddio emojis. Fodd bynnag, caiff disgyblion hŷn lai o gyfleoedd i gael adborth gan athrawon, ac ymateb iddo, er mwyn deall sut gallant wella.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwerthfawrogi cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol sy'n eu helpu i ddatblygu medrau cymdeithasol pwysig yn ogystal â gwella ymddygiad a dysgu yn y gymuned. Mae disgyblion yn cymryd eu rôl ar y cyngor ysgol o ddifri, ac o'r herwydd, mae ganddynt rôl ddylanwadol mewn bywyd yn yr UCD. Maent wedi cyfrannu at newidiadau yn y polisi ymddygiad a gwobrwyo, a datblygiadau yn adeiladau'r UCD.

Mae arweinwyr wedi nodi meysydd i'w gwella yn gyflym ac yn gywir, ac yn cynorthwyo staff yn dda â rheoli newid. Mae'r gwelliannau hyn yn cynorthwyo'r UCD i wneud cynnydd yn effeithiol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi cydnabod bod angen gwella datblygiad medrau Cymraeg yr holl ddisgyblion, a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb, gan gynnwys sicrhau bod yr awdurdod lleol yn darparu mynediad priodol ac amserol at wasanaethau lles addysg

A2 Gwella cynllunio athrawon a'u defnydd o adborth i gefnogi cynnydd ym medrau disgyblion

A3 Datblygu cyfleoedd i staff ymgymryd â rolau arwain ar draws yr UCD

A4 Gwella datblygiad medrau Cymraeg yr holl ddisgyblion a'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r UCD wedi profi newidiadau sylweddol yn y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu'r UCD a unwyd ym mis Ebrill 2019 a newidiadau mewn arweinyddiaeth, yn ogystal ag effeithiau'r pandemig. Er gwaethaf yr holl newidiadau hyn a wynebwyd gan ddisgyblion a staff, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu cyfnod yn yr UCD o'u mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, mae problemau presenoldeb yn parhau i effeithio'n negyddol ar gyfradd cynnydd disgyblion ar draws yr holl gyfnodau allweddol.

Ar draws yr UCD, mae llawer o ddisgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn yr amgylchedd anogol, ac yn dechrau gwneud cynnydd priodol yn academaidd ac yn gymdeithasol. Ers y pandemig, mae llawer o ddisgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol i ailsefydlu arferion a strwythurau yn yr UCD. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynny sydd wedi dychwelyd yn arddangos gwydnwch. Fodd bynnag, bu angen cymorth ychwanegol ar bron pob un o'r disgyblion ar gyfer eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl, sydd wedi effeithio ar eu cynnydd cyffredinol.

Dros gyfnod, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn briodol. Mae tua hanner y disgyblion yn gweithio'n dda mewn grwpiau bach a pharau. Mae llawer ohonynt yn gwrando ar farn disgyblion eraill a staff, ac yn ei pharchu, ac yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol. Mae ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn hynod huawdl ac yn arddangos medrau cyfathrebu eithriadol o effeithiol o ran eu hoedran.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol ac yn eu defnyddio'n addas yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod sut i leihau maint y cynhwysion mewn ryseitiau ar gyfer teisennau cri. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn arddangos dealltwriaeth addas o drosi degolion i ganrannau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm, lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ar draws y cyfnodau allweddol, ceir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau TGCh yn raddol dros gyfnod. At ei gilydd, mae disgyblion ar draws yr UCD yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys disgyblion yn clymu a lliwio sanau a chrysau-T, ac ailgylchu deunyddiau i greu offer cydio ar gyfer dringo. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn sesiynau cerddoriaeth ac yn mwynhau chwarae offerynnau fel gitarau a drymiau i gyfeilio i ganeuon poblogaidd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a gweithgareddau awyr agored. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu helpu i ddeall manteision bod yn heini ac yn iach, yn datblygu eu hunanhyder ac yn gwella eu hunan-barch. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn beicio mynydd, e-feicio a

sgïo. Yn ystod amseroedd egwyl, mae llawer o ddisgyblion yn chwarae gemau sy’n datblygu eu dealltwriaeth o reolau a sut i ddelio ag ennill a cholli mewn ffordd briodol.

Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 yn elwa ar gyfleoedd i ddilyn cymwysterau lefel mynediad mewn rhifedd a llythrennedd. Mae hyn yn paratoi disgyblion yn dda ac yn codi eu dyheadau wrth ddewis eu llwybrau cymhwyster yng nghyfnod allweddol 4. Mae bron pob un o’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill ystod addas o gymwysterau mewn pynciau TGAU fel daearyddiaeth, hanes, celf, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, a chyrsiau galwedigaethol fel adeiladu neu ofal plant.

Yn y flwyddyn academaidd 2020-2021, aeth pob un o’r disgyblion a oedd yn gadael yng nghyfnod allweddol 4 ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae mwyafrif y disgyblion yn mynychu’r UCD yn rheolaidd. Mae llawer o’r disgyblion yn gwella eu presenoldeb yn effeithiol o gymharu â’u lleoliadau blaenorol, sy’n gynnydd sylweddol i’r disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu’n ddigon da.

Yn ystod eu cyfnod yn yr UCD, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda’r staff, ac mae hyn yn eu helpu i deimlo’n ddiogel ac yn saff. Maent yn ymddiried mewn staff i helpu â’u gofidiau ac yn gwybod at bwy i droi pan fyddant yn teimlo’n anhapus neu’n bryderus. Mae’r perthnasoedd ymddiriedus hyn gyda staff yn cyfrannu’n gadarnhaol at y cynnydd a wna disgyblion, yn enwedig o ran gwella’u lles a magu eu hunanhyder a’u gwydnwch. Mae disgyblion yn elwa ar y bond y maent yn ei ffurfio â chŵn yr ysgol hefyd, sef Honey, Peppa, a Myla, sy’n cefnogi eu datblygiad emosiynol yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi cymryd rhan mewn dysgu yn yr awyr agored, fel ysgolion coedwig, padlfyrddio, seiclo a byw yn y gwyllt. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymweld â’r ganolfan addysg awyr agored leol yn rheolaidd ble maent yn datblygu eu hyder, eu lles corfforol a’u hunan-barch trwy weithgareddau fel caiacio a cherdded ceunentydd.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu’n briodol i weithio, yn dilyn cyfarwyddiadau’n briodol, ac yn dyfalbarhau gydag anogaeth gan staff cymorth dysgu. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff, ac yn hapus i rannu a thrafod eu gwaith gydag ymwelwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion, yn enwedig y rhai yng nghyfnod allweddol 3, yn cydweithredu’n gyson dda â disgyblion eraill neu â staff. Ychydig iawn o ddiddordeb a ddangosant yn eu gwaith, ac nid ydynt yn aros yn y dosbarth hyd ddiwedd y wers. Caiff yr ymddygiad hwn effaith sylweddol ar eu dysgu eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd helpu pobl eraill yn briodol trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau difyr. Er enghraifft, maent yn codi arian ar gyfer elusen ac ar gyfer bws mini’r UCD tra’n cymryd rhan mewn prosiectau uwchgylchu a pharatoi eitemau wedi’u creu ar y safle i’w gwerthu mewn siop leol. Mae disgyblion cyfnod allweddol 4 yn datblygu eu dealltwriaeth o fusnes a menter trwy werthu eu cynhyrchion ar-lein ac mewn marchnadoedd lleol.

Mae disgyblion yn cymryd eu rôl ar y cyngor ysgol o ddifri, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd disgyblion yn yr UCD. Mae aelodau'r cyngor ysgol wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar newidiadau i bolisïau ymddygiad a systemau gwobrwyo'r UCD. Yn ychwanegol, maent wedi helpu adolygu'r defnydd o ofod ar draws y safle. Mae hyn wedi darparu mannau tawel ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy bregus sydd angen lle i reoli eu hymddygiad, yn ogystal ag ardaloedd cymdeithasol i ddisgyblion ryngweithio â'u cyfoedion. Mae disgyblion hŷn, yn arbennig, yn cydnabod mantais arfer adferol pan fydd gwrthdaro rhwng cyfoedion, ac yn gofyn am gyngor gan staff i ddatrys hyn.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r UCD yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu perthnasol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad academaidd, galwedigaethol a phersonol. Mae ffocws cryf ar les, sy'n cynorthwyo disgyblion yn dda i wneud cynnydd addas o ran eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae bron pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda'r disgyblion, ac yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn ymwybodol o'r materion cyd-destunol ehangach a'r rhwystrau rhag dysgu sy'n wynebu disgyblion unigol. O ganlyniad, mae staff yn cynnig cymorth effeithiol, gan helpu disgyblion i deimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gallu ymgysylltu'n addas â dysgu mewn amgylchedd anogol. Mae staff cymorth yn cael effaith gadarnhaol, ac yn bodloni anghenion disgyblion mewn modd sensitif ac amserol. O ganlyniad i hyn, mae gan ddisgyblion fwy o annibyniaeth yn eu dysgu, maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu cael cymorth a chefnogaeth pan fydd angen.

Mae'r UCD wedi gwneud cynnydd effeithiol o ran paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae staff yng nghyfnod allweddol 2 yn cynllunio trwy'r meysydd dysgu a phrofiad (MDPh). Mae cynllunio ar draws yr UCD yn dechrau cael ei ategu gan y pedwar diben. Mae staff yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 wedi mabwysiadu ymagwedd thematig, wedi'i chynllunio'n ofalus, at gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn dechrau deall sut bydd eu dysgu yn eu helpu i gyflawni'r pedwar diben.

Mae'r UCD yn darparu cymorth llwyddiannus ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Ceir ffocws cryf ar fedrau cymdeithasol ac emosiynol trwy ethos yr UCD, y cwricwlwm cynlluniedig, gan gynnwys addysg bersonol a chymdeithasol, a thrwy ymyriadau targedig. Fodd bynnag, mae addysgu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn faes i'w ddatblygu ymhellach. Yn yr un modd, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu medrau Cymraeg a chyfathrebu wedi'i datblygu'n ddigonol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r UCD yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu i helpu disgyblion wneud dewisiadau gwybodus ynghylch gyrfaoedd yn y dyfodol a'r byd gwaith. Cyflwynir y profiadau hyn trwy bartneriaethau cryf â'r coleg lleol, y cynghorydd gyrfaoedd a phartneriaid allanol eraill. Mae'r UCD yn trefnu ymweliadau i ddisgyblion â'r coleg o'u dewis, ac ymweliadau gan fusnesau lleol i esbonio'r gwaith y maent yn ei wneud i gynorthwyo disgyblion i ennill medrau ar gyfer y gweithle. Mae'r gwaith hwn yn gryfder yn yr UCD.

Mae gan yr UCD gyfres gynhwysfawr o becynnau asesu er mwyn asesu disgyblion pan gânt eu derbyn, ac olrhain cynnydd disgyblion o'r adeg hon. Yn gyffredinol, mae athrawon yn dechrau defnyddio'r data a ddarperir o'r asesiadau hyn i adolygu cynnydd disgyblion a llywio eu cynllunio yn briodol. Mae systemau olrhain effeithiol ar waith, a chânt eu cydlynu gan y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer pob cyfnod allweddol. Mae athrawon yn monitro cynnydd academaidd, presenoldeb a datblygiad cymdeithasol yn briodol ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'r tîm arweinyddiaeth a'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, a chynllunio ymyriadau. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am asesu ar draws yr UCD yn cynnal adolygiadau rheolaidd â ffocws gyda staff addysgu i nodi unrhyw faterion, tueddiadau neu anghenion pellach. Mae hyn yn sicrhau bod gan bron pob un o'r disgyblion dargedau priodol i fodloni eu hanghenion unigol.

Mae gan lawer o staff ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd addysgu yn anogol ac yn amgylcheddau dysgu ysgogol priodol. Fodd bynnag, prin yw'r gwaith gan ddisgyblion sy'n cael ei arddangos i ddathlu cyflawniad.

Mae llawer o athrawon yn darparu gwersi strwythuredig sy'n gweddu'n briodol i oedran, gallu a diddordebau disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol gadarn am y meysydd y maent yn eu haddysgu. Caiff gweithgareddau eu cynllunio'n dda, ar y cyfan, ond nid ydynt bob amser yn sicrhau parhad a dilyniant mewn dysgu yn gyson. Mae staff yn defnyddio gwybodaeth am asesiadau yn dda i nodi targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn gwybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn defnyddio holi yn effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau. Er enghraifft, mae staff yn defnyddio cwisiau i ennyn diddordeb disgyblion, a'u herio, a gwirio eu dysgu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth buddiol gan athrawon, a gallant hunanasesu eu cynnydd eu hunain trwy ddefnyddio emojis. Mae adborth gan athrawon i ddisgyblion hŷn yn llai effeithiol. Ceir ychydig iawn o gyfleoedd wedi'u cynllunio i ddisgyblion fyfyrio ac ymateb i adborth athrawon, ac o ganlyniad, nid yw'r adborth yn arwain yn gyson at ddealltwriaeth disgyblion o ba mor dda y maent yn gwneud neu beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r UCD yn llwyddiannus o ran creu ethos gofalgar a chynhwysol. Mae'r amgylchedd dysgu cefnogol hwn yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau boddhaus. Mae'r ethos hwn yn treiddio trwy waith yr UCD, ac fe gaiff effaith gadarnhaol sylweddol ar les disgyblion.

Mae'r UCD wedi wynebu heriau sylweddol o ran cefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cynyddol ei disgyblion yn sgil y pandemig. Mae arweinwyr a staff wedi defnyddio sawl strategaeth ddefnyddiol i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r UCD. Mae hyn yn cynnwys ystod o ymyriadau lles buddiol, yn ogystal â dulliau fel arddangos gwaith disgyblion nad ydynt wedi dychwelyd i'w dosbarthiadau eto. Mae'r dull hwn yn magu hyder ac ymdeimlad o berthyn.

Caiff lles a phresenoldeb disgyblion eu monitro'n briodol ar draws pob cyfnod allweddol, ac mae'r UCD yn darparu ymyriadau cefnogol ble mae angen. Fodd bynnag, mae gwahanol gyfnodau allweddol yn defnyddio gwahanol systemau monitro, ac nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gyffredinol o batrymau presenoldeb ar draws yr UCD. Ni all yr UCD fanteisio ar gymorth amserol gan y gwasanaeth lles addysg i helpu disgyblion nad ydynt yn mynychu i ymgysylltu o'r newydd.

Mae'r UCD yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid i ymestyn a chryfhau ei darpariaeth, yn enwedig i gefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Er enghraifft, ceir partneriaethau cryf â gwasanaethau cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Mae'r UCD wedi cyflwyno polisi ymddygiad a gwobrwyo newydd yn llwyddiannus. Mae strategaethau a nodir o fewn y polisi yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol disgyblion yn dda, ac mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r sesiynau gwobrwyo ar ddydd Gwener.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff addysgu yn yr UCD yn meddu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gynhwysfawr o anghenion disgyblion. Mae cynlluniau cymorth datblygiad unigol disgyblion yn briodol ac yn cynnwys targedau perthnasol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r dull cynllunio hwn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynnwys disgyblion, staff, rhieni a gofalwyr. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys strategaethau defnyddiol i hyrwyddo dysgu a lles disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol yn eu haddysgu a'u cynllunio.

Mae'r UCD yn cynnig ystod o raglenni ymyrraeth defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol, eu hiechyd emosiynol a'u medrau cymdeithasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau rheoli dicter, ioga, ac ymwybyddiaeth ofalgar.

Cynhelir asesiadau lles yn rheolaidd i sicrhau bod ymyriadau priodol a thargedig ar waith i gefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Gallai ymyriadau dilynol gynnwys chwarae therapiwtig a chwnsela, sydd ar gael i'r holl ddisgyblion.

Mae gan yr UCD drefniadau addas i gefnogi datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'n gwneud defnydd buddiol o weithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau, fel yr heddlu, sefydliadau iechyd ac elusennol i ymestyn y cwricwlwm.

Mae'r UCD yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o yrfaoedd a'r byd gwaith. Mae'n sicrhau amrywiaeth o brofiadau sy'n helpu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.

Trwy waith y cyngor ysgol, mae gan ddisgyblion rôl ddylanwadol mewn bywyd yn yr UCD. Mae disgyblion wedi cyfrannu at newidiadau yn y polisi ymddygiad a gwobrwyo yn ogystal â datblygiadau yn adeiladau'r UCD, fel cyflwyno dwy ystafell synhwyraidd.

Mae'r UCD yn darparu ystod o weithgareddau allgyrsiol, y mae disgyblion yn eu mwynhau. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi cerddoriaeth, gwaith celf graffiti, cerdded dros fryniau, dringo creigiau a syrffio yn lleol. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn elwa

ar gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn prosiect celf lleol gydag Oriel Llandudno, yn ogystal â chystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu hyder, hunan-barch a gwaith tîm.

Mae'r diwylliant diogelu ar draws yr UCD yn gryf, ac mae prosesau'n drylwyr a systematig. Mae arweinwyr yn yr UCD yn cyfathrebu'n llwyddiannus, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch, ac yn rhoi cyfeiriad clir i staff ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau am ddiogelu. Ystyrir ei fod yn rhan annatod o gyfrifoldeb pawb, gan gynnwys y pwyllgor rheoli, pob aelod o'r staff, a disgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu ethos lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt. Mae disgyblion yn ymwybodol ac yn hyderus fod yna oedolion yn yr UCD y gallant droi atynt os ydynt yn poeni neu'n cael trafferth.

Mae pob aelod o staff wedi'i hyfforddi a'i gefnogi i ymateb yn briodol ac yn sensitif i unrhyw bryderon ynghylch diogelu. Mae staff arweiniol diogelu dynodedig yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill fel gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r cwricwlwm addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel. Cyflwynir y ddarpariaeth hon yn briodol trwy ddull amlasiantaethol, sy'n arfogi disgyblion â'r medrau sydd eu hangen arnynt i aros yn ddiogel a gwneud penderfyniadau gwybodus.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Agorwyd Canolfan Addysg Conwy ym mis Mawrth 2019, ar ôl uno tri gwasanaeth ar wahân, a oedd yn bodoli ar draws yr awdurdod lleol o'r blaen, sef: Y Gyffin, Penmaenrhos a Chanolfan Addysg Amgen Penrhos Avenue. Am dros flwyddyn ar ôl ei chofrestru, cynhaliwyd yr UCD portffolio newydd gan gyfres o benaethiaid dros dro yn y tymor byr tra'n aros i benodi pennaeth parhaol.

Ers penodi'r pennaeth parhaol ym mis Mehefin 2020 ac uwch arweinwyr newydd ym mis Medi 2020, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi gweithio'n ddiflino i arwain yr UCD trwy'r heriau sylweddol yn sgil y pandemig ac uno'r tri safle.

Mewn cyfnod amser byr, mae arweinwyr wedi gweithredu newidiadau sylweddol i gynyddu atebolrwydd a chysondeb o ran arferion ar draws yr UCD. Er enghraifft, maent wedi adolygu polisïau a gweithdrefnau blaenorol i sefydlu disgwyliadau a gwerthoedd ar y cyd, ac ymddygiad proffesiynol ar draws yr UCD. Mae'r pennaeth wedi ymgynghori'n ofalus â staff a disgyblion i greu gweledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n llwyddiannus â'r holl randdeiliaid. Mae'r weledigaeth hon yn treiddio trwy waith yr ysgol ac yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i wneud cynnydd addas yn eu dysgu a'u lles.

Mae'r pennaeth wedi cyflwyno swydd ddisgrifiadau ac wedi gweithredu prosesau rheoli perfformiad cyson ar gyfer pob grŵp o staff. Mae hyn wedi helpu staff ar draws y tri safle i ennill dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae uwch arweinwyr wedi ymgymryd â meysydd cyfrifoldeb trosfwaol ar draws yr UCD am agweddau strategol pwysig fel ADY, lles ac olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Yn ychwanegol, wrth leihau'r cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig, mae staff wedi

dechrau teithio'n amlach rhwng safleoedd. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn dechrau sefydlu ffyrdd mwy cyson o weithio ar draws y tri safle.

Mae arweinwyr ar draws pob un o'r tri safle yn hynod weladwy. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ar gyfer disgyblion, yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn drylwyr, ac yn darparu graddau uchel o gymorth ar gyfer staff. Ar draws pob un o safleoedd yr UCD, mae arweinwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i hyrwyddo diwylliant o ddiogelu i sicrhau bod yr UCD yn darparu cymuned ddiogel ac anogol sy'n bodloni anghenion amrywiol a chymhleth ei disgyblion yn dda.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn llwyddiannus. Mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn cynnig ystod eang o fedrau ac arbenigedd perthnasol o'u rolau arwain mewn gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill, ac ysgolion lleol, gan gynnwys UCD gyfagos. Mae'r aelodau hyn yn meddu ar ddealltwriaeth gref o gryfderau'r UCD a'i meysydd i'w datblygu ac yn rhoi cymorth a her werthfawr i'r uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae'r pwyllgor rheoli a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn elwa yn eu tro ar berthnasoedd gweithio agos gyda rheolwr yr awdurdod lleol ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol. Mae hi wedi goruchwylio sefydlu'r UCD o'r cychwyn, ac yn rhoi cyfeiriad strategol cryf iddi, wedi'i seilio ar ddealltwriaeth glir o safle'r UCD yng nghyd-destun ehangach cynhwysiant cymdeithasol yn lleol a thros gyfnod.

Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent wedi cyflwyno trefniadau addas i sicrhau ansawdd addysgu a dysgu a darparu gwybodaeth uniongyrchol i gefnogi hunanwerthusiad yr UCD, er enghraifft trwy arsylwi gwersi'n rheolaidd, teithiau dysgu a chraffu ar waith. Er mai megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae'r rhain, mae gwerthuso'r gweithgareddau hyn yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Caiff staff addysgu gyfleoedd gwerth chweil i gyfrannu at hunanwerthuso a dylanwadu ar flaenoriaethau strategol yr ysgol.

Ers eu penodi, mae uwch arweinwyr wedi nodi ystod uchelgeisiol o flaenoriaethau ar gyfer gwella mewn llawer o agweddau pwysig a pherthnasol ar waith yr ysgol. Pan fydd angen, maent wedi cymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r meysydd tanberfformio mwyaf dybryd. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni chaiff prosesau cynllunio gwelliant eu cydlynu'n ddigon trefnus. Yn ychwanegol, mae graddau ac ystod y blaenoriaethau yn rhagori ar allu'r tîm arweinyddiaeth i fynd i'r afael â'r rhain yn gyson. Mae arweinwyr wedi dechrau adolygu cyfleoedd i staff ymgymryd â rolau arwain ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae'r UCD wedi datblygu rhaglen helaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r UCD, ac yn cefnogi anghenion cymhleth disgyblion sy'n mynychu'r UCD yn dda. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu a dysgu, yn ogystal ag ADY ac anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gwerthuso effaith y mentrau hyn ar arferion athrawon yn ddigonol. Yn ychwanegol, megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i staff addysgu arsylwi a rhannu arferion mewn lleoliadau eraill ac ar draws safleoedd yr UCD.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol / UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol / UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol / UCD
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol / UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol / UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol / UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol / UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, cymedroli a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2022